

Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

# Adroddiad


## Effaith 2023/24

## Yr elusen sy'n cadw ein Rhwydwaith Camlesi ar agor ac yn fyw

Dyfrffyrdd byw, gweddnewid lleoedd a chyfoethogi bywydau

CEFNOGWCH NI

# Camlesi yng Nghymru




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2025,
Arolwg Ordnans 100030994.
© Next Perspectives, 2025. Yn cynnwys data'r Post Brenhinol,
© hawlfraint y Post Brenhinol a hawl cronfa ddata, 2025.
Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol, © hawlfraint y Goron a
hawl cronfa ddata, 2025.

# Uchafbwyntiau ein heffaith yng Nghymru 2023/24

Mae Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru, yn gofalu am oddeutu **76 milltir** o gamlesi yng Nghymru

**17,674,057**
nifer y bobl yng Nghymru a ymwelodd â'n rhwydwaith



**97,008**
o oriau gan wirfoddolwyr
(Rhanbarth Cymru a De-orllewin Lloegr)

Tua **40** milltir â statws Baner Werdd

**5** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)



**33** Digwyddiad Dewch i… yn 2023/24

**700** amcangyfrif o nifer y mynychwyr

**208**
o ddigwyddiadau Gwreiddiau Cymunedol

**5,295**
amcangyfrif o nifer y mynychwyr



**3** heneb gofrestredig

**8** ardal gadwraeth




## Ein gweledigaeth – Mae ein camlesi'n ddyfrffyrdd byw sy'n gweddnewid lleoedd ac yn cyfoethogi bywydau

**Mae dyfrffyrdd byw** yn darparu cynefinoedd hollbwysig i fywyd gwyllt, mannau agored a llwybrau mawr eu hangen i bobl a chychod ac maen nhw'n helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf dybryd y DU

**Gweddnewid lleoedd** trwy gysylltu cymunedau a busnesau, yn ffisegol ac yn ddigidol, gan ddarparu ffocws ar gyfer adfywio a rhoi ffyrdd newydd i ni fyw a gweithio'n gynaliadwy

**Cyfoethogi bywydau** trwy ein cysylltu â natur, ein cysylltu gyda'n gilydd a'n cysylltu gyda'n gorffennol a'n dyfodol

# Ar gael ac ar agor i bawb

**Dim giatiau tro nac amseroedd cau. Mae ein rhwydwaith camlesi ar gael ac yn agored i bawb.**

Mae camlesi'n achubiaeth i filiynau o bobl, gan gynnig mynediad mawr ei angen i natur a mannau glas-gwyrdd lle mae ei angen fwyaf.

Mae ein rhwydwaith camlesi gyda mynediad am ddim yn rhoi cyfle i bawb fod wrth y dŵr neu ar y dŵr – a phrofi'r manteision o ran iechyd corfforol a llesiant.

A gall pobl fwynhau ein rhwydwaith mewn sawl ffordd, boed hynny drwy weld bywyd gwyllt, cerdded, rhedeg, beicio, padlfyrddio, mynd mewn cwch neu ryfeddu at rai o enghreifftiau gorau'r byd o dreftadaeth ddiwydiannol sy'n gweithio.



# Lleoedd a Ffyniant



Cefnogi twf cynaliadwy,
defnyddio cychod, datblygu a byw

# Her gymdeithasol

**Mae prinder cartrefi, twf economaidd araf a chyflenwadau dŵr ac ynni ansicr yn heriau difrifol sy'n wynebu ein cenedl. Ac mae'n effeithio ar gymunedau, sy'n teimlo eu bod wedi'u bwrw o'r neilltu a'u hanghofio.**

Fodd bynnag, mae cynlluniau uchelgeisiol gan y llywodraeth i ailadeiladu a rhoi hwb i'r economi. Ac yn union fel yr helpodd ein rhwydwaith camlesi i sbarduno arloesedd a thwf dros 200 mlynedd yn ôl, gall fod yn rhan o'r ateb heddiw.

# Y gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud

**Mae ein camlesi'n dreftadaeth fyw sy'n gweithio ac sy'n wahanol i bopeth arall, yn ein cysylltu â'n gorffennol ac yn ysbrydoli ein dyfodol.**

Mae ein camlesi yng Nghymru wedi helpu i sbarduno twf economaidd drwy gefnogi twristiaeth. Rhwng mis Ionawr a mis Medi 2023, aeth trigolion brwdfrydig ledled Prydain ar 127.47 miliwn o deithiau hamdden yng Nghymru, yn para tair awr neu fwy, gan wario £3.92 biliwn.

Mae ein rhwydwaith yn cefnogi twf economaidd hefyd trwy ei gyfleustodau a'r economi forol, yn ogystal â thrwy sicrhau cadernid cyflenwadau dŵr, gwaith i liniaru effeithiau llifogydd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

# Dathliadau pen-blwydd Camlas Abertawe

**Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gwych i ddathlu 225 mlynedd o Gamlas Abertawe (1798-2023). Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Treftadaeth y Loteri – Cymru.**



Yn 2023, agorwyd arddangosfa ryngweithiol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe mewn partneriaeth â Chymdeithas Camlas Abertawe a'r amgueddfa.

I gael gwybod mwy am yr arddangosfa a'r dathliadau, ewch i: **canalrivertrust.org.uk/camlas-abertawe-yn-225-oed**



## Dathlu 225 mlynedd o Gamlas Abertawe yn Amgueddfa'r Glannau

**5,000**
amcangyfrif o nifer yr ymweliadau ag arddangosfa'r amgueddfa

**8,601** o bobl yn cymryd rhan weithredol yn Abertawe 225 (ROI – £9.50)

**146,805**
o gysylltiadau ar Facebook ac X (Twitter)

**Cyfrannodd 33**
o sefydliadau/partneriaid at lwyddiant Abertawe 225



Derbyniodd prosiect pen-blwydd 225 Camlas Abertawe Wobr Gymunedol gyda chryn ganmoliaeth yn ein gwobrau blynyddol ym mis Hydref.










# Gorymdaith lusernau

Ym mis Tachwedd, cafwyd dathliadau arbennig gyda gorymdaith lusernau arbennig 'Goleuo'r Gamlas' ym Mharc Coed Gwilym yng Nghlydach.

Fe wnaeth yr orymdaith oleuo'r dyfroedd gyda mwy na 100 o lusernau a oedd wedi'u gwneud gan y cyhoedd ar ôl iddynt weithio gydag artistiaid lleol i'w dylunio. Dyluniodd 'Spacetocreate' lusernau siâp anifeiliaid maint llawn hefyd, gan gynnwys ceffyl, alarch a dyfrgi.

Meddai David Morgan, y rheolwr datblygu, "Roedd yn wych bod cymaint o bobl wedi cymryd rhan yn y dathliadau, ac mae'n dangos yr effaith y mae camlesi yn ei chael ar ddod â chymunedau at ei gilydd. Mae'r mannau arbennig hyn angen cefnogaeth barhaus i wneud yn siŵr eu bod yma ar gyfer heddiw ac yfory."




Gwyliwch ein gorymdaith lusernau arbennig yma: **youtube.com/watch?v=YYy6N_ibR0Y**

# Diogelu un o 'Saith Rhyfeddod y Dyfrffyrdd'

**Agorwyd Dyfrbont fyd-enwog Pontcysyllte ym 1805 ac mae 11 milltir Camlas Llangollen yn Safle Treftadaeth y Byd, a ddisgrifiwyd fel 'campwaith o athrylith greadigol' gan UNESCO.**

> "Roedd yn fenter enfawr gyda llawer o heriau gwahanol, ond ar yr un pryd, roedd yn hynod werth chweil. Nid bob dydd rydych chi'n gweithio ar Safle Treftadaeth y Byd UNESCO sydd â'r un statws â'r Taj Mahal."
>
> Mark, rheolwr adeiladu a oruchwyliodd yr arolygiad

Mae'r ddyfrbont yn rhan bwysig o economi ymwelwyr y gogledd, gyda mwy na 500,000 o bobl o 52 o wahanol wledydd yn ymweld â'r atyniad syfrdanol hwn.

Am y tro cyntaf mewn ugain mlynedd, fe wnaethom gynnal arolygiad llawn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2024. Fe wnaeth cau a draenio'r strwythur hanesyddol 126 troedfedd (38m) poblogaidd hwn alluogi Mark a'i dîm i graffu'n fanwl ar 'y nant yn yr awyr' a chwblhau'r gwaith angenrheidiol i'w gadw'n ddiogel ac ar agor i bawb ei fwynhau.




Camwch y tu ôl i'r llenni gyda Dan Snow:
**youtube.com/watch?v=5rZRsyapFw8**



# Lleisiau'r gamlas

## Rydyn ni'n cadw naratifau pwysig ac yn meithrin mwy o werthfawrogiad o hanes lleol ar hyd Camlas Maldwyn.

Daeth plant ysgol a thrigolion ynghyd er mwyn dysgu o atgofion y trigolion o'r gamlas ac fe recordiwyd eu cyfweliadau i greu llwybr sain. Y bwriad oedd bod pobl yn gwrando ar yr hanesion wrth gerdded ar hyd y gamlas. Mae naratifau'r plant yn dod â'r straeon personol a gasglwyd gan y gymuned yn fyw.

Gan ddysgu sgiliau cyfweld pwysig ac annog chwilfrydedd y plant, roedd y prosiect yn cwmpasu popeth o sut y cafodd y gamlas ei hadeiladu a'r gweithwyr a oedd yn ei defnyddio i'r nadroedd, dyfrgwn a brogaod y gallwch eu gweld ar hyd y llwybr tynnu ac yn y dŵr heddiw.

Ewch i glywed Lleisiau'r Gamlas yn **canalrivertrust.org.uk/voices-of-the-canal**



# Gwreiddiau Cymunedol Torfaen




Trwy ein rhaglen Gwreiddiau Cymunedol yn Nhorfaen, sy'n cael ei hariannu gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, rydyn ni wedi dod â gwahanol gymunedau at ei gilydd i greu gweledigaeth a chynllun gweithredu cyffredin ar gyfer eu camlas leol. Mae'r rhaglenni hyn yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol a gwelliannau amgylcheddol wrth gysylltu pobl â dŵr a natur.



PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

POSTCODE EARTH TRUST

> “Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r prosiect a helpu i rannu manteision y gamlas yn ein hardal. Mae wedi fy ysbrydoli i ymchwilio a theithio i archwilio ardaloedd eraill o'r rhwydwaith camlesi yn y DU.”
>
> Un o gyfranogwyr Gwreiddiau Cymunedol Torfaen (dyn, 69)



# Gwylltgrefft

Y rhaglen sgiliau byw yn y gwyllt, sy'n cael ei rhedeg gan gydlynydd ymgysylltu Gwreiddiau Cymunedol, Hannah Cubie, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gwent ym Mhont-y-moel:

“Yn ystod y sesiwn gyntaf, cyrhaeddodd 12 o fenywod yn llawn brwdfrydedd, gydag awydd i ddysgu sgiliau newydd fel cynnau tân, gwaith coed gwyrdd a choginio yn yr awyr agored o dan arweiniad gwych Rose o Ymddiriedolaeth Natur Gwent. Y bwriad yw eu bod yn cael arafu, cysylltu â natur a chreu cymuned o bobl hyfryd sy'n mwynhau'r awyr agored ac sy'n awyddus i dreulio mwy o amser ger camlas Mynwy ac Aberhonddu," meddai Hannah.

# Natur a bioamrywiaeth

## Cynefinoedd a choridorau hanfodol i natur ffynnu





Rydyn ni wedi gweld **gostyngiad o 20%** ar gyfartaledd ym mywyd gwyllt Cymru ers 1994, gyda **18% o rywogaethau** yn wynebu bygythiad difodiant.

# Her gymdeithasol

## Y DU yw un o'r gwledydd sydd wedi colli'r mwyaf o natur yn y byd.

Ers y 1970au, mae 41% o rywogaethau a astudiwyd yn y DU wedi dirywio. Rydyn ni wedi gweld gostyngiad o 20% ym mywyd gwyllt Cymru ers 1994, ar gyfartaledd, gyda 18% o rywogaethau yn wynebu bygythiad difodiant.

# Y gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud

## Mae rhywogaethau eiconig ar hyd ein camlesi, fel glas y dorlan a llygod y dŵr, yn wynebu bygythiadau dybryd yn sgil colli cynefinoedd, llygredd a newid hinsawdd.

Mae rhywogaethau ymledol ac anfrodorol yn ei gwneud hi'n anodd i fywyd camlas brodorol oroesi. Mae llygredd, o blastigau i garthffosiaeth, yn rhyddhau cemegau a nwyon tŷ gwydr, yn halogi'r dŵr ac yn niweidio bywyd gwyllt. Mae angen i ni lanhau, lleihau allyriadau carbon a darparu mwy o gynefinoedd lle gall natur ffynnu.

Mae ein rhwydwaith rhyng-gysylltiedig unigryw o wrychoedd, dyfrffyrdd a glannau camlesi yn darparu cartref heb ei debyg i fyd natur. Mae'n hollbwysig ar gyfer goroesiad bywyd gwyllt ein cenedl sydd dan fygythiad.




# Prosiect adfer Camlas Maldwyn

“Rydyn ni wedi cynyddu dyfnder canol y sianel o 35cm i 1.5 metr, sy'n golygu y bydd bioamrywiaeth yn cynyddu, gan greu cynefin iach i'r bywyd gwyllt y mae Camlas Maldwyn yn adnabyddus amdano.”

Kathyrn Woodroffe, rheolwr prosiect

Cafodd mwy na **2,000m$^3$** o ddeunydd ei symud oddi yno, yn pwyso cyfanswm o **3,200** tunnell.

**Rydyn ni'n adfer mwy na phedair milltir o Gamlas Trefaldwyn rhwng Llaymynech a'r Maerdy, diolch i gyllid Ffyniant Bro mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a chefnogaeth gan Bartneriaeth Camlas Maldwyn.**

Cafodd cyflenwydd Tanat ei charthu yn ystod hydref 2023 ac yna cafodd rhan 450 metr o hyd ar y brif sianel ei charthu hefyd er mwyn ei dyfnhau. Cafodd ardaloedd o lystyfiant newydd ar y glannau eu cadw.

Llywodraeth Cymru Welsh Government | Powys | WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO | POWERED BY LEVELLING UP

Llun trwy garedigrwydd Ebsford


Cynt


Wedyn

Nod ail gam adfer y gamlas yw ailsefydlu'r sianel fel y gall cychod ddefnyddio'r ddyfrffordd am y tro cyntaf ers y 1930au. Bydd yn helpu i wneud y gamlas yn fwy defnyddiol ar gyfer gweithgareddau fel canŵio a phadlfyrddio hefyd.



# Astudio dyfrllys prin ar Gamlas Maldwyn



Dyfrllys hirgoes

Mae'r planhigion pwysig ar y gamlas yn cynnwys y Potamogeton, sy'n fwy cyfarwydd fel dyfrllys. Mae'r planhigion hyn yn chwarae rhan hollbwysig yng nghydbwysedd ecosystem ffyniannus. Maen nhw'n gwella ansawdd dŵr, yn darparu lloches i organebau dyfrol ac yn gweithredu fel ffynhonnell fwyd i adar dŵr a physgod.

**Er mwyn cynorthwyo adferiad a thwf rhywogaethau brodorol newydd, fe wnaeth gwirfoddolwyr helpu i glirio chwyn ymledol ar hyd 18 cilometr o'r ddyfrffordd.**

> "Fel rhan o waith adfer Camlas Maldwyn, gwnaed llawer o waith cyffrous i helpu i wella ecosystem y gamlas a dysgu mwy am ei phlanhigion dyfrol prin."
>
> Kathyrn Woodroffe, rheolwr prosiect

# Iechyd a Lles

## Cysylltu pobl â mannau glas, llwybrau a natur



# Her gymdeithasol

**Ledled y DU, mae anghydraddoldebau iechyd ystyfnig yn parhau, gan effeithio ar ansawdd bywyd a disgwyliad oes. Mae'r tebygolrwydd o iechyd meddwl gwael, gordewdra yn ystod plentyndod a chyflyrau iechyd hirdymor yn llawer uwch ymhlith y rhai sy'n profi rhyw lefel o dlodi.**

Gall ein helusen, gan weithio gyda'n partneriaid, chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl i gymryd camau cadarnhaol er budd eu hiechyd trwy ein mannau awyr agored gwyrdd a glas sydd am ddim, yn agored ac yn hygyrch.

**Mae 60%** **o oedolion (16+) yn dweud eu bod dros bwysau, gyda 26% yn dweud eu bod yn ordew.** (Arolwg Cenedlaethol Cymru 22/23)

**49%**
**Ychydig llai na hanner yr oedolion yng Nghymru sy'n gwneud gweithgarwch corfforol 2-4 diwrnod yr wythnos.**
(Chwaraeon Cymru 2024)

**39%**
**Mae dau o bob pump o ymatebwyr yn dweud bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i fod yn actif.**
(Chwaraeon Cymru 2024)




## Y gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud

**Mae bod yn fwy egnïol a chysylltu â'n gilydd a gyda natur yn helpu pobl i fyw bywydau hapusach ac iachach.**

# Digwyddiadau a gweithgareddau Dewch i...

**Yn yr haf, fe wnaethom gynnal bob math o weithgareddau, gan ymgysylltu â mwy na 500 o bobl. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau penwythnos ar gyfer teuluoedd ar gyfer teuluoedd ar y tir ac ar y dŵr a gweithgareddau gweithgareddau Dewch i Badlo, Dewch i Gerdded a Dewch i wneud Yoga gyda darparwyr lleol, yn ogystal â gweithgareddau oedd yn gweithio gyda grwpiau a oedd wedi eu hatgyfeirio gan y cyngor.**






> Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod y ddyfrffordd yn hygyrch i ganŵod a phadlfyrddau ac mae mor hyfryd!
>
> Cyfranogwr (menyw, 35-44)



Fe wnaethom weithio gyda Branching Out Learning i gyflwyno sesiynau celf natur ym Mhont-y-moel er mwyn i blant greu gyda natur ac archwilio lliw, gwead a chwarae i greu darnau unigryw o gelf.

Dywedodd y sefydliad, sy'n dod ag Ysgolion Coedwig a dysgu awyr agored i deuluoedd, meithrinfeydd, ysgolion ac addysgwyr: "Roeddem wrth ein bodd â'n sesiwn gelf ddiwethaf ym Masn Camlas Pont-y-moel. Fe wnaethon ni greu cymeriadau rhithiol allan o glai a gwneud paent mwyar duon a ffyn teithio! Diolch yn fawr iawn i Glandŵr Cymru a Hannah Cubie am wneud y sesiynau hyn yn bosibl!"

# Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Fforwyr



**Yn 2023/24 cymerodd yr ysgol gyntaf ran yn ein cynllun Mabwysiadu Milltir Sgwâr. Dysgodd plant yn Ysgol Gynradd Griffithstown, Pont-y-pŵl, am gamlas Mynwy ac Aberhonddu a buont yn gwneud gweithgareddau er mwyn ei gwneud yn lle gwell fyth i ymweld ag ef.**

Y syniad y tu ôl i ysgolion yn mabwysiadu rhan o'r gamlwas yw y gall disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, o gelf stryd a chasglu sbwriel i blannu a chreu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt. Trwy gymryd perchnogaeth o'u camlas leol, mae plant yn meithrin cysylltiadau pwysig gyda'u cymuned ac yn datblygu sgiliau newydd a chael llawer o hwyl wrth wneud hynny!



# Fforwyr sy'n Ysbrydoli

## Mae Ysgol Min y Ddôl o fewn tafliad carreg i Gamlas Llangollen, Afon Dyfrdwy, Dyfrbont Pontcysyllte a Basn Trefor.

Nod ein rhaglen Fforwyr yw ysbrydoli dysgu trwy gysylltu pobl ifanc â natur trwy gyfrwng ein camlesi a'n hafonydd, gan danio chwilfrydedd a meithrin eu gwybodaeth i gadw'n ddiogel ger y dŵr.

Meddai Mr Davis, athro Blwyddyn 3/4: "Roedd y gweithdai'n cynnwys cymysgedd gwych o bynciau diddorol ac roeddent yn berffaith ar gyfer lefelau gallu'r plant. Fe wnaeth y plant eu mwynhau'n fawr."

Ychwanegodd: "Yn ogystal â'r ymweliadau a'r gweithgareddau ar lan y dŵr, rydyn ni'n rhoi pwyslais mawr ar ddiogelwch dŵr. Mae Glandŵr Cymru yn dod i siarad â'r disgyblion, a phryd bynnag y byddwn ni'n mynd allan, rydyn ni'n manteisio ar bob cyfle i brofi ac ychwanegu at eu gwybodaeth. Mae'n arbennig o bwysig i blant hŷn sy'n dod yn fwy annibynnol."

> "Dydw i erioed wedi eu gweld nhw'n llyncu cymaint o wybodaeth. Roedden nhw mor chwilfrydig ac yn edrych ar bopeth yn fanwl tu hwnt. Maen nhw'n dal i gofio cymaint o'r diwrnod."
>
> Mr Davis, Athro blwyddyn 3/4





> "Rydyn ni'n defnyddio'r holl adnoddau gwych hyn sydd am ddim mor aml ag y gallwn ni."
>
> Tom Evison, dirprwy bennaeth dros dro

# Gweithdy rhagnodi gwyrdd a chymdeithasol yn Llangollen – 'Y Bont sy'n Cysylltu'




> Agorodd y prosiect 'Y Bont sy'n Cysylltu yn y Waun' ddrws yma – ac o'r adborth rydw i wedi'i gael, mae'r bobl na lwyddodd i fod yn rhan ohono eisiau bod yn rhan ohono ac mae'r bobl welodd e eisiau iddo ddigwydd yn rheolaidd!
>
> Rhanddeiliad lleol sy'n ymwneud â'r prosiect

Gwyliwch ein ffilm:
**youtu.be/RsP0dQXy5So**




## Fe wnaethom sicrhau cyllid trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (Gogledd) i gyflawni prosiect creu lleoedd celfyddydol dan arweiniad y gymuned.

Gweithiodd artistiaid gyda chymunedau Safleoedd Treftadaeth y Byd, gan archwilio treftadaeth, tirwedd, hunaniaeth, hanes cymdeithasol a chydberthynas. Comisiynwyd pedwar artist i weithio gyda thrigolion a grwpiau i archwilio dyheadau 'lle' unigol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Buont hefyd yn edrych ar haenau lluosog treftadaeth ddiwylliannol Cymru drwy'r tirwedd, yr iaith a'r hanes cymdeithasol sy'n eu cysylltu ac sydd â'r potensial i'w huno.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

wrexham
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
wrecsam

# Cadernid a diogelwch

## Rhan gritigol a chydgysylltiedig o seilwaith y genedl





# Her gymdeithasol

**Mae ein cenedl yn wynebu argyfwng hinsawdd, gyda thywydd mwy dwys ac eithafol – llifogydd, sychder a thymheredd uchel.**

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl, cartrefi a busnesau, yn ogystal â bywyd gwyllt, yn cael eu heffeithio.

# Yr her rydyn ni'n ei hwynebu

**Mae ein rhwydwaith camlesi sy'n heneiddio dan straen enfawr yn gynyddol.**

Ar ôl 12 storm ledled y DU yn ystod 2023/24 yn unig, mae ein camlesi, cronfeydd dŵr a phontydd hanesyddol mewn perygl o ymsuddo a chwympo.

# Y gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud

**Mae ein camlesi'n cyfrannu at addasu i'r hinsawdd hefyd.**

Mae amddiffyniad rhag llifogydd a gynigir gan ein argloddiau a'n cronfeydd dŵr yn amddiffyn llawer o aelwydydd, eiddo, busnesau, telathrebu a chyfleustodau, yn ogystal â mathau eraill o seilwaith cenedlaethol, megis is-orsafoedd trydan, trafnidiaeth ac ysgolion.

Mae camlesi'n helpu i ddatgarboneiddio, sy'n agwedd hollbwysig ar ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd a phontio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

# Ein timau ar y rheng flaen yn ymateb i ddifrod gan 12 storm ledled y DU





Atgyweirio lociau


Tirlithriadau, cwlferi ac achosion o orlifo

“Wrth edrych yn ôl dros fy 30 mlynedd, mae argyfyngau wedi digwydd erioed. Ond mae digwyddiadau ar gynnydd gan fod camlesi'n wynebu mwy o heriau hinsawdd erbyn hyn, a hynny ymhell y tu hwnt i'w disgwyliad oes.”

Dean, pennaeth gwasanaethau uniongyrchol

## Atgyweiriadau llwybr tynnu


Cynt


Wedyn

**Agnes** – Glaw, Gwynt – 27-28 Medi 2023

**Babet** – Glaw, Glaw, Gwynt – 18-21 Hyd 2023

**Ciarán** – Gwynt, Glaw, Gwynt – 1-2 Tach 2023

**Debi** – Gwynt, Gwynt – 13 Tach 2023

**Elin** – Glaw, Gwynt – 9 Rhag 2023

**Fergus** – Gwynt – 10 Rhag 2023

**Gerrit** – Glaw, Gwynt, Eira – 27-28 Rhag 2023

**Henk** – Gwynt, Glaw – 2 Ion 2024

**Isha** – Gwynt, Gwynt, Gwynt – 21-22 Ion 2024

**Jocelyn** – Gwynt, Glaw – 23-24 Ion 2024

**Kathleen** – Gwynt – 6-7 Ebrill 2024

**Lilian** – Gwynt – 22-23 Awst 2024

ALLWEDDOL
- Effaith tywydd lefel is
- Effaith tywydd garw
- Effaith tywydd peryglus

# Gwaith atgyweirio ar ddyfrbont Camlas Mynwy ac Aberhonddu sy'n 225 oed

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Fe wnaethom gwblhau gwaith atgyweirio i ddyfrbont garreg 225 mlwydd oed sy'n cludo camlas Mynwy ac Aberhonddu dros Nant Onneu (un o lednentydd Afon Wysg).**



Yn ystod yr hydref 2023, fe wnaethom atgyweirio gwaith maen a sylfeini'r ddyfrbont yn Llangatwg, gan fod canrifoedd o erydu gan ddŵr afon wedi erydu'r strwythur bwa cerrig gwneud. Roedd ein gwaith yn cynnwys cymryd camau i atal erydiad yn y dyfodol er mwyn diogelu bywyd gwyllt y camlesi. Fe wnaethom weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwelliannau ecolegol i wely afon Nant Onneu er budd pysgod wrth iddynt fudo i fyny'r afon bob gwanwyn i silio.

Dywedodd Paul Kelly, uwch reolwr prosiect: “Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn lle mor brydferth a heddychlon i bobl ei ddefnyddio a'i fwynhau. Mae'n waddol gwych o'r dreftadaeth ddiwydiannol ac mae bellach yn enghraifft o hanes byw sy'n cefnogi'r economi leol trwy dwristiaeth.

Yn ogystal ag atgyweirio'r ddyfrbont, rydyn ni wedi draenio ac atgyweirio pedair rhan o'r gamlas 35 milltir, o bontydd i lannau, gyda chymorth ein gwirfoddolwyr ymroddedig.”



# Adfer loc cudd Abertawe

**Cyhoeddodd Cymdeithas Camlas Abertawe grant o £967,000 gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i adfer 120 metr o gamlas a loc wedi'u claddu yng Nghlydach o dan iard storio'r cyngor.**

Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd cychod, canŵod a chaiacau yn teithio o ganol Clydach i Drebanos ar hyd coridor gwyrdd gyda choed a blodau gwyllt o boptu iddo.

Mae'r gronfa'n rhan o agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, a weinyddir gan Gyngor Abertawe.

Cyngor Abertawe Swansea Council

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP



## Y stori gudd y tu ôl i'r loc cudd



Mae gan loc Clydach hanes sydd wedi'i gadw'n dawel. Yn y 1970au, gwnaeth John Evans (yn y llun), tad ein cyfarwyddwr ar gyfer Cymru a De-orllewin Lloegr, Mark Evans, gyflawni'r gwaith o'i lenwi. Fel syrfëwr adrannol cynorthwyol, gosododd John bibell yn Loc 7 er mwyn caniatâu i'r dŵr ddod drwodd, cyn ei ôl-lenwi â cherrig a rhoi wyneb tarmac arno. Diogelodd y loc trwy ychwanegu slab amddiffynnol a gosod siambr arolygu.



Meddai Anna Finn, rheolwr cyflawni rhaglenni strategol, "Mae'r gwaith y mae Cymdeithas Camlas Abertawe yn ei wneud mewn partneriaeth â Glandŵr Cymru, wedi bod yn hollol anhygoel. Maen nhw wedi gwneud cymaint o wahaniaeth o ran y ddyfrffordd y gellir mordwyo arni sydd ar ôl a'n huchelgais o gael camlas sydd wedi'i hadfer yn llawn."

# Edrych tua'r Dyfodol

**Cipolwg yn unig yw'r adroddiad hwn ar ehangder y gweithgareddau dros y 12 mis diwethaf a'r effaith gadarnhaol maen nhw wedi'i chael ar fywydau pobl.**

Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb ein gwirfoddolwyr, ein partneriaid, ein cyllidwyr a'n rhoddwyr, Ffrindiau, cefnogwyr a llysgenhadon anhygoel – diolch yn fawr i bob un ohonoch chi.

Mae angen eich cefnogaeth arnom fel y gall ein camlesi fod yn rhan o'r ateb hinsawdd a pharhau i fod wrth galon ein cymunedau lleol, lle mae lle i bobl fyw bywydau iach a mwynhau bywyd wrth y dŵr ac ar y dŵr.





> Dydw i byth yn teimlo’n unig ar y gamlas, hyd yn oed os ydw i’n cerdded 10 milltir o bellter ac yn gweld neb. Dyma fy ‘lle diogel’. Mae’n rhoi rhyddid llwyr a dihangfa i mi rhag bywyd. Rwy’n credu bod y gamlas yn eich tywys i fyd gwahanol. Rydych chi yno, ac yn sydyn rydych chi’n canolbwyntio ar yr hyn sydd o’ch cwmpas. Dwn i ddim sut i’w esbonio ond mae naws y gamlas yn anhygoel. Mae’n mynd â mi i fan lle rwy’n ymlacio ac yn anghofio popeth.

Zoe


Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales
Wedi'ch ysbrydoli gan effaith ein gwaith a photensial ein rhwydwaith camlesi?
Cysylltwch â ni i drafod cyfleoedd am gefnogaeth a'n helpu i gadw'n camlesi ar agor ac yn fyw ar gyfer yfory a thu hwnt.
CEFNOGWCH NI
canalrivertrust.org.uk/cymru
Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN
Rhif elusen gofrestredig 1146792
Mawrth 2025 ICM 16114